RHONDDA CYNON TAF

At sylw: Defnyddiwr y Gwasanaeth

Fy Nghyf: LK

Eich Cyf:

Dyddiad: 28 Tachwedd 2023

Annwyl Ddefnyddiwr y Gwasanaeth,

**<u>Ymgynghoriad yn ymwneud â pharhad darpariaeth Clwb Brecwast am ddim a'r bwriad i gyflwyno tâl am yr elfen gofal plant ychwanegol</u>**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn wynebu heriau ariannol sylweddol, gyda diffyg ariannol posibl o £85 miliwn yn y gyllideb wedi'i ragweld dros y tair blynedd nesaf. Mae'r sefyllfa yma'n gofyn i'r Cyngor ystyried nifer o opsiynau er mwyn cyflawni'r arbedion angenrheidiol er mwyn darparu cyllid cyfreithiol cytbwys ar gyfer 2024/25.

Mae clybiau brecwast yn chwarae rhan bwysig ym mywyd ysgolion Rhondda Cynon Taf ac yn sicrhau bod plant yn bwyta bwyd maethlon ac yn cael dechrau cadarnhaol i'r diwrnod ysgol. Mae hefyd yn gyfle ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a gwell ymgysylltiad ag addysg. Serch hynny, mae cost darparu clwb brecwast wedi cynyddu bron i £400,000 dros y 5 mlynedd diwethaf, ac mae Banc Lloegr wedi rhagweld y bydd cyfraddau chwyddiant uchel yn parhau am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rhagwelir y bydd costau bwyd, staffio, trafnidiaeth ac ynni hefyd yn cynyddu.

Ddydd Llun, 20 Tachwedd 2023, trafododd y Cyngor adroddiad i ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar y cynnig i gyflwyno tâl am yr elfen gofal plant ychwanegol, a fydd ar gael cyn i'r ddarpariaeth clwb brecwast am ddim ddechrau. Y tâl dyddiol arfaethedig yw £1, wedi'i dalgrynnu i £60 y tymor (£180 y flwyddyn). Byddai disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn cael eu heithrio o unrhyw dâl, a chynigir bod yr incwm ychwanegol a gynhyrchir o'r cynigion yn cael ei neilltuo a'i ail-fuddsoddi i gyllidebau ysgolion. Rhoddir ystyriaeth hefyd a ddylid darparu consesiynau pellach o'r tâl arfaethedig, er enghraifft, gosod terfyn posibl ar rieni/gwarcheidwad sydd â mwy nag un plentyn yn defnyddio'r ddarpariaeth.

**Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant/Education and Inclusion Services** Ffôn/Tel: 01443 744000
Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon CF45 4SN
Valleys Innovation Centre, Navigation Park, Abercynon CF45 4SN

**Gaynor Davies**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

DIOGELU DATA PROTECTION
MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â hyn, mae'r Cyngor yn awyddus i glywed eich barn ar y newidiadau arfaethedig a'r taliadau i'r ddarpariaeth clwb brecwast. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal, yn dechrau ar 27 Tachwedd 2023 ac yn gorffen ar 8 Ionawr 2024, a hynny gyda defnyddwyr presennol y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.

Byddwn i'n ddiolchgar pe byddai modd i chi gymryd ychydig funudau o'ch amser i lenwi'r ymgynghoriad, y mae modd bwrw golwg arno yma: Ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk). Bydd yr wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn ddienw. Fydd eich data ddim yn cael ei rannu ag unrhyw un y tu allan i'r Cyngor.
Mae modd i chi ein he-bostio ar – ymgynghori@rctcbc.gov.uk neu ysgrifennu aton ni:

**Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS**
**Cysylltiadau Cyhoeddus a Strategaeth**
**Y Pafiliynau**
**Parc Hen Lofa'r Cambrian**
**Cwm Clydach**
**Tonypandy**
**CF40 2XX**

Pe byddai'n well gyda chi roi'ch barn dros y ffôn, ffoniwch 01443 425014 – rhwng 9am a 5pm, ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn Gymraeg. Fydd hyn ddim yn arwain at unrhyw oedi.

Yn gywir

Gaynor Davies

**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

To: Service User

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fy nghyf:<br>My Ref: | LK | Eich Cyf:<br>Your Ref: | | Dyddiad:<br>Date: | 28th November 2023 |

Dear Service User,

**Consultation Relating to the Continuation of Free Breakfast Club Provision and the Proposed Introduction of a Charge for the Additional Childcare Element**

Rhondda Cynon Taf Council is facing significant financial challenges, with a potential £85M shortfall in funding predicted over the next three years. The situation requires the Council to consider a range of options to deliver the essential savings necessary to help deliver a legally balanced budget for 2024/25.

Breakfast clubs play an important part in the life of schools in Rhondda Cynon Taf and ensure not only good nutrition and a positive start to the school day, but an opportunity for social interaction and improved engagement with education. Nevertheless, the cost of providing breakfast club provision has increased by nearly £400k over the past 5 years and the Bank of England has forecast that high inflation rates will continue for the next few years, and increased food, staffing, transport, and energy costs are also predicted.

On Monday 20th November 2023, the Council considered a report to consult with key stakeholders on the proposed introduction of a charge for the additional childcare element, which will be available prior to the commencement of free breakfast club provision. The proposed daily charge is £1, rounded down to £60 per term (£180 per annum). Eligible Free School Meal (eFSM) pupils would be exempt from any charge, and it is proposed that the additional income generated from the proposals will be ring fenced and reinvested back into school budgets. Consideration will also be given as to whether further concessions from the proposed charge should be provided, for example, a potential cap applied to parents/carers with more than one child making use of the provision.

**Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant/Education and Inclusion Services** Ffôn/Tel: 01443 744000
Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon CF45 4SN
Valleys Innovation Centre, Navigation Park, Abercynon CF45 4SN

**Gaynor Davies**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

To be fully informed, the Council are requesting to seek views on the proposed changes and charges to the breakfast club provision. A public consultation will be undertaken, commencing on 27th November 2023, and ending on 8th January 2024, with current service users and other stakeholders.

I would be grateful if you could take a few minutes of your time to complete the consultation survey, which can be found at Current Consultations | Rhondda Cynon Taf County Borough Council (rctcbc.gov.uk). The information you provide will be treated as confidential and anonymous. Your data will not be shared with anyone outside of the Council.
You can email us at consultation@rctcbc.gov.uk or you can write to us at:-

**Freepost RSBU-HJUK-LSSS**
**Public Relations & Strategy**
**The Pavilions**
**Cambrian Industrial Park**
**Clydach Vale**
**Tonypandy**
**CF40 2XX**

If you would prefer to speak to someone to provide your views, please telephone 01443 425014 between 9:00 a.m. & 5:00 p.m., Monday to Friday.

You are welcome to communicate with us in Welsh and this will not lead to a delay.

Yours sincerely



**Gaynor Davies**
**Director of Education and Inclusion Services**